Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Glan Ceubal

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2023

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Glan Ceubal yn gymuned hapus, ofalgar a chartrefol sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les ei disgyblion. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu naws gynhwysol er mwyn adnabod anghenion pob unigolyn. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo bod ganddynt berthnasoedd cadarn i drafod unrhyw bryderon mewn amgylchedd diogel.

Mae'r disgyblion yn ymdrin â'i gilydd ac oedolion gyda pharch a chwrteisi sy'n cefnogi'r rhan fwyaf i ymddwyn yn dda. Mae ganddynt agweddau positif at ddysgu ac maent yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae'r rhai sy'n hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg yn gwneud cynnydd cadarn gyda'r iaith, gan fagu hyder a mwynhad tuag at yr iaith yn dilyn cyfnod yn yr uned drochi.

Rhoddir llais cryf i'r disgyblion ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o waith yr ysgol, gyda'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau'n hyderus mewn cyd-destunau gwahanol. Mae llawer yn adeiladu'n gynyddol ar eu medrau ysgrifennu ac yn cyflawni safonau da. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd a digidol yn dda erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r diwylliant darllen yn annog y rhan fwyaf o ddisgyblion i fwynhau testunau Cymraeg.

Mae athrawon yn datblygu medrau disgyblion trwy holi treiddgar ac yn darparu cyfleoedd buddiol iddynt drafod eu gwaith. Mae'r staff yn adnabod anghenion pob disgybl yn dda, gan deilwra'r gefnogaeth ddysgu yn sensitif pan fydd yn berthnasol. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymateb yn annibynnol i adborth athrawon er mwyn gwella ansawdd eu gwaith, dewis sut i gyflwyno eu dysgu, a chymryd y cam nesaf yn eu dysgu.

Mae'r pennaeth newydd wedi ymgartrefu'n dda ac mae ganddi ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r materion sydd angen eu gwella.  Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel ac maent yn awyddus i fireinio'r addysgu ar draws yr ysgol er mwyn diwallu anghenion bob disgybl. Mae aelodau'r corff llywodraethol wedi dangos cefnogaeth gadarn i'r pennaeth newydd ers ei phenodiad. Fodd bynnag, nid oes ganddynt ddigon o ddealltwriaeth a dyfnder ynglŷn â gofynion eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau.

# Argymhellion

**A1 Ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb yn annibynnol i adborth athrawon er mwyn gwella ansawdd eu gwaith, dewis sut i gyflwyno eu dysgu, a chymryd y cam nesaf yn eu dysgu**

**A2 Sicrhau bod gweithdrefnau i gefnogi cynnydd gwybodaeth a mwynhad disgyblion wrth ddarllen llyfrau a thestunau Cymraeg**

**A3 Datblygu rôl strategol y llywodraethwyr er mwyn iddynt weithredu'n fwy strategol**

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Glan Ceubal |
| Awdurdod lleol | Cyngor Caerdydd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 199 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 132 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 48 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 15.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 5.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 16.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/12/2013 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 19/06/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/08/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.